# Cofnodion Cyfarfod 6/6/2024

**Presennol:** Y Maer Dilys Evans, Rhys Evans, Clare Mackintosh, Eifion Roberts, Fiona Hopkins, Moira Mai a Huw Antur (*Clerc*).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Tony Parry, Jacqueline Allen, Sion McGuinness, Eluned Jones ac Eric Williams.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Dilys Evans, a dywedodd iddi gynrychioli'r Cyngor Tref mewn nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ystod y mis diwethaf, hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Heddlu, Canolfan Bro Tegid, Clwb Rotari, y Park Run, diwrnod cofio D-Day ac hefyd gynrychioli'r Cyngor Tref yn angladd y diweddar John James.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion: C**adarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 2/5/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Triathlon y Bala – cafwyd trafodaeth ar ddyddiad arfaethedig Triathlon 2025 a chytunwyd fod angen osgoi penwythnosau gŵyl y banc fis Mai.
    ii. Sedd Wag y Cyngor: Ni chafwyd cais i alw etholiad, a nodwyd fod gan y Cyngor Tref hawl felly i gyfethol aelod i lenwi'r sedd wag. Cytunwyd i hysbysebu'r cyfle, gyda chais i rai sydd â diddordeb i gysylltu â'r clerc erbyn Mehefin 24ain. Adroddwyd fod y plât i anrhegu John Caradog Williams wedi ei archebu.
    iii. Cynllun Creu Lle: Nodwyd fod cyfarfod wedi ei drefnu i drafod y cynllun drafft ar 7.6.24.
    iv. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd fod yr artist Aliss Curtis o Lanberis wedi ei hapwyntio i gychwyn ar y gwaith yma.
    v. Mainc y Stryd Fawr – adroddwyd fod y fainc wedi ei thrwsio.
    vi. Basgedi Blodau: Adroddwyd fod y basgedi wedi eu gosod. Cytunwyd i hawlio'r grant gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
    vii. Materion Stryd Fawr – nodwyd fod angen dyddiad ar gyfer y cyfarfod gyda NMWTRA ac Adran Traffig Cyngor Gwynedd.

viii. Cynllun Finyls Ffenestri Siopau Gweigion: Nodwyd fod logos y Bala Yma o Hyd wedi ei hanfon i Gyngor Gwynedd.
ix. Cyfarfod Heddlu Gogledd Cymru: Cafwyd adroddiad o'r o'r cyfarfod gyda'r heddlu ar Fai 3ydd, pryd y trafodwyd materion goryrru a gor yfed yn y dref.
x. Canolfan Bro Tegid: Adroddwyd fod Cwmni Pum Plwy Penllyn bellach yn gyfrifol am rediad canolfan Bro Tegid, ac y bydd y brydles gyda'r Cyngor Tref yn cael ei diddymu. Cytunwyd i ysgrifennu at Trevor Jones i gydnabod ei holl waith fel ysgrifennydd y ganolfan ar hyd y blynyddoedd.
xi. Trefniadau Cinio Ysgol Godre'r Berwyn: Derbyniwyd neges gan Gyngor Gwynedd yn nodi'r anawsterau a gafwyd yn ddiweddar i ddarparu cinio ysgol.
xii. Arwyr y Bala: Cynigiodd y Cyng Rhys Evans i baratoi rhestr o arwyr lleol, ynghyd â dyddiadau allweddol, fel bo modd cofnodi'r dyddiadau yn flynyddol a thynnu sylw at waith yr enwogion yma.
xiii. Park Run: Nodwyd fod y drafodaeth rhwng drefnwyr y Park Run a Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau.
xiv. Gorchymyn parcio Maes y Bronnydd: Derbyniwyd copi o'r gorchymyn ffurfiol.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y cyfeiriodd at y gwaith o harddu'r dref trwy osod blodau etc. Dywedodd y byddai'n trefnu ymgyrch i chwynnu o gwmpas y dref. Dywedodd hefyd ei fod yn cyfarfod MSparc i drafod lleoliad iddynt yn y dref.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** cafwyd adroddiad gan y Cyng Clare Mackintosh pryd y dywedodd fod y pwyllgor wedi bod yn gweithio'n galed, a bod y gweithgareddau canlynol ar y gweill:

- Basgedi blodau a gwaith crefft ar y Stryd Fawr.
- Ail greu digwyddiad hanesyddol ar y llyn.
- Pared llusernau.
- Gweu sgarff a'i arddangos ar Domen y Bala (rhoddwyd caniatâd i ryddhau drôn i ffilmio'r achlysur, a nodwyd y byddai'n dda medru torri gwair cyn y digwyddiad yma).
- Arddangosfa o hanes y dref yng Nghanolfan Cantref.
- Cyngerdd Dathlu yn Theatr Derek Williams ar Orffennaf 13eg.

7. **Is-bwyllgorau:**
Is Bwyllgor Nadolig: Dywedodd y Cyng Rhys Evans ei fod yn trefnu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y ddarpariaeth o oleuadau Nadolig.
Is Bwyllgor Asedau: Adroddwyd fod meinciau wedi cael eu symud ger y banc.
Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar: Adroddwyd fod parcio yn broblem mewn rhannau o Heol Tegid, a dywedodd y Cyng Dilwyn Morgan y byddai'n dod a hyn i sylw Cyngor Gwynedd.
Is Bwyllgor Cyllid: Adroddwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal cyn y cyfarfod o'r cyngor llawn, pryd y cymeradwywyd cyfrifon y cyngor a ffurflen flynyddol y cyngor am 2023/2024, ac yr apwyntiwyd Gwasanaeth Archwilio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol i'r Cyngor

Tref am y flwyddyn, ac y cytunwyd i addasu mandad banc y cyngor i adlewyrchu newidiadau diweddar.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

i) Grŵp Siopau'r Bala: Adroddwyd fod y grŵp wedi bod yn ystyried y Cynllun Creu Lle, ac y dylid anfon unrhyw sylwadau i'r clerc.
ii) Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod y cwmni yn parhau i weithio ar brosiectau Canolfan Bro Tegid, y Cyfnod a'r Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol.

8. **Materion Cynllunio**: Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*9.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £25,448.28 yn y cyfri cyfredol, £16,534.21 yn y cyfri cadw a £663.07 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £4,548.50 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd. Cytunwyd i drosglwyddo £10,000 o'r cyfrif cyfredol i gyfrif cadw y cyngor.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfoneb Hill & Roberts am weinyddu PAYE y cyngor, anfoneb Amberol am focsys blodau ac anfonebau Y Bala – Yma o Hyd.

**iii.** Archwiliad Blynyddol: Cytunwyd i benodi Gwasanaeth Archwilio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewn i'r Cyngor Tref.

**iv.** Derbyniadau ariannol: Nodwyd derbyn hanner praesept y flwyddyn ac incwm ardoll parcio Cyngor Gwynedd.

**v.** Ceisiadau am gymorth ariannol: Cytunwyd i drafod cais y Clwb Badminton cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac fe dderbyniwyd diolchiadau am gymorth ariannol gan Ysgol Godre'r Berwyn a Pharc Chwarae Heol y Castell.

**10. Gohebiaeth:**

i. Awdurdod y Parc Cenedlaethol – derbyniwyd gwybodaeth fod cyfle i ymgeisio am le ar Awdurdod y Parc.

ii. Dwr Cymru – derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod ar 7.6.24 i drafod y gwaith ar argae Llyn Celyn.

iii. Ambiwlans Awyr Cymru- derbyniwyd copi o adroddiad diweddar ar ail strwythuro'r gwasanaeth.

iv. Ymgynghoriad 20 mya – nodwyd fod cyfle i fynegi barn ar leoliad y cyfyngiadau 20mya, ac fe gytunwyd y dylid ymestyn y cyfyngiad wrth fynedfa ogleddol Ysgol Godre'r Berwyn yn dilyn yr addasiadau diweddar i'r mynedfeydd.

v. Ymddygiad gwrthgymdeithasol – derbyniwyd neges yn tynnu sylw at ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref yn hwyr y nos ar benwythnosau. Dywedodd y Maer ei bod wedi bod yn trafod y mater gyda'r heddlu, a bod y mater mewn llaw.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

vi. Rhybudd cau’r Ffordd – nodwyd derbyn rhybudd y bydd rhai ffyrdd ar gau ar 6.6.24 oherwydd taith feiciau yn yr ardal.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Toiledau Cyhoeddus Grin y Bala: Nodwyd fod y Cyngor Tref wedi derbyn sawl sylw yn ddiweddar yn canmol glanweithdra’r toiledau ar y Grin.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 4 Gorffennaf 2024.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)